

---

## **1. Nodau ac Amcanion y Polisi**

- 1.1 Nod y polisi yma yw gwarchod y cyhoedd, tra'n ymgymryd ag ymagwedd gytbwys tuag at ofynion trwyddedu.
- 1.2 Y prif amcan ydi ffurfioli'r defnydd o bwerau disgresiwn i alluogi cerbydau uwchraddol i weithredu heb arddangos platiau trwydded allanol y cyngor.

## **2. Cyflwyniad**

- 2.1 Yn ôl Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 rhaid i blatiau trwyddedu gael eu harddangos ar gerbydau hurio preifat trwyddedig ac mae'n rhaid i yrwyr wisgo bathodyn gyrrwr.
- 2.2 Mae'r un ddeddfwriaeth yn caniatáu i Awdurdod Trwyddedu eithrio arddangos platiau trwyddedu cerbyd hurio preifat, a phan fo'r eithriad yn berthnasol, nid yw'r gofyniad i wisgo bathodyn gyrrwr cerbyd hurio preifat yn berthnasol.
- 2.3 Mae arddangos platiau adnabod cerbyd a bathodyn y gyrrwr yn agored yn bwysig wrth warchod y cyhoedd a'r fasnach tacsis.
- 2.4 Serch hynny, mae yna adegau pan y gallai arddangos y platiau adnabod a'r bathodyn gael yr effaith cyferbyniol o ran diogelwch y cwsmer a goblygiadau masnachol ar gyfer y busnes sy'n eu gweithredu, megis gweithredu cerbydau 'chauffeur', uwchraddol a limwsîn. Gallai teithwyr "risg uchel" gael eu targedu'n haws petai modd adnabod y cerbyd fel cerbyd trwyddedig, gan roi'r teithiwr a'r gyrrwr mewn perygl.
- 2.5 Gallai arddangos platiau adnabod yr Awdurdod Lleol yn allanol atal rhai cwsmeriaid corfforaethol rhag defnyddio'r gwasanaeth.
- 2.6 Mae'r polisi'n amlinellu'r math o angen busnes gweithredol a gofynion y busnes ac mae'n disgrifio'r safon ofynnol ar gyfer y math o gerbyd a'i gyffordduswydd sy'n briodol cyn i'r Cyngor ystyried cais i eithrio plât.
- 2.7 Dylid darllen y polisi ar y cyd â'n polisi presennol (y Llyfr Glas) sy'n ymwneud â cherbydau hurio preifat.

## **3. Y Polisi**

- 3.1 Caiff ceisiadau eu hystyried a'u hasesu yn ôl eu teilyngdod eu hunain.
- 3.2 Bydd pob cerbyd yn cael ei archwilio gan Swyddog awdurdodedig o'r Cyngor i sicrhau ei fod yn addas i'r diben.
- 3.3 Fel rheol, dim ond pan fydd y gwaith yn cael ei wneud gan fwyaf neu'n gyfan gwbl y tu allan i'r Sir y bydd yr eithriad yn cael ei ganiatáu.
- 3.4 Dim ond mewn achosion prin y bydd y pwerau disgresiwn yma'n cael eu defnyddio, pan fydd y cyngor yn fodlon fod yna angen busnes gweithredol gwirioneddol a gofyniad busnes, a phan na fydd diogelwch y cyhoedd yn cael ei beryglu o ganlyniad.
- 3.5 Bod y gyrrwr a'r cerbyd wedi'u llogi'n arbennig i ddarparu cludiant i gwmni neu berson, a/neu pan allai arddangos plât trwydded adnabod effeithio ar urddas neu ddiogelwch yr unigolyn sy'n cael eu cludo.

### **Manylion y Cerbyd**

- 3.6 Rhaid bodloni'r gofynion canlynol cyn ystyried eithrio:
- a. Rhaid i'r cerbyd a fyddai'n cael ei eithrio fod o safon moethusrwydd megis Mercedes Benz E neu S Class, BMW 7 Series, Jaguar, Rolls Royce, Bentley saloon, Lexus GS neu LS ac Audi A8. Gellir hefyd ystyried y manylion uchaf gan weithgynhyrchwyr ceir uwchraddol eraill. Bydd cerbydau hir (*strech*) Americanaidd yn gymwys fel rheol.
  - b. Bydd y cerbyd mewn cyflwr perffaith heb unrhyw ddiffygion, tolciau neu namau gweladwy i'r cerbyd cyfan ar y tu allan, olwynion, addurniadau a seddi tu mewn.

### **Mathau o waith a ystyrir ar gyfer eu Heithrio**

- 3.7 Y math o waith a wneir sydd yn "steil uwchraddol" o ran natur h.y.:
- i. Contractau gydag uwch staff cwmnïau mawr i gludo Rheolwyr Gyfarwyddwyr neu eu cleientiaid
  - ii. Contractau gyda llywodraeth genedlaethol neu leol, neu asiantaethau tebyg i gludo uwch staff a gwesteion ar fusnes swyddogol
  - iii. Cludo pobl enwog megis sêr chwaraeon neu sêr 'pop'
- 3.8 Mae'r rhestr uchod yn fynegol, ond nid yw'n gyflawn.

### **Y math o waith NA CHAIFF ei ystyried ar gyfer eu Heithrio**

- 3.9 Dylai'r math o waith NA DDYLID ei ystyried ar gyfer ei eithrio gynnwys:
- i. Contractau ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor
  - ii. Siwrneiau i'r maes awyr, porthladdoedd neu orsafoedd trenau, oni bai bod rhan o'r siwrnai yn cael ei eithrio (caiff arddangos platiau trwydded a sticeri'r cyngor ar ddrysau eu hystyried yn nodwedd diogelwch wrth gyrraedd lleoliadau o'r fath)
  - iii. Siwrneiau theatr neu ddigwyddiadau chwaraeon
  - iv. Digwyddiadau 'parti plu' a pharti 'stag'
- 3.9 Mae'r rhestr uchod yn fynegol, ond nid yw'n gyflawn.

### **Ystyriaethau Eraill**

- 3.10 Y math o waith y mae'r cerbyd hurio preifat yn ei wneud
- 3.11 Sut mae'r gwaith yn wahanol iawn i waith cerbydau hurio preifat arferol
- 3.12 Y nifer o siwrneiau sydd ddim yn waith llogi preifat
- 3.13 Hyd pob siwrnai nad yw'n waith hurio preifat rheolaidd
- 3.14 Nifer y siwrneiau hurio preifat afreolaidd/rheolaidd y mae'r cerbyd yn ei wneud
- 3.15 Unrhyw hanes perthnasol am yr ymgeisydd, o ran torri amodau neu ddeddfau

- 3.16 Wrth ystyried y nifer a hyd siwrneiau llogi preifat rheolaidd, ni chaniateir eithriad os gellir dangos bod y nifer a hyd siwrneiau gwaith hurio preifat rheolaidd yn cyfrif am o leiaf 50% o waith y cerbyd

#### **4. Gweithdrefn**

- 4.1 Cyflwynir ceisiadau am eithriad gan ddeiliad trwydded y cerbyd i'r Awdurdod Trwyddedu, yn ysgrifenedig
- 4.2 Bydd swyddogion yn asesu a oes yna angen busnes gweithredol gwirioneddol a'i peidio ac a ydi'r cerbyd yn bodloni'r meini prawf a fanylir yn 3.6 uchod.
- 4.3 Os bodlonir y gofynion a nodir yn 3.6 uchod er boddhad y Swyddog, fe ganiateir yr hysbysiad eithrio.
- 4.4 Pryd bynnag y rhoddir hysbysiad eithrio, bydd yr hysbysiad eithrio cychwynnol yn dod i ben ar yr un diwrnod a dyddiad trwydded hurio preifat presennol y cerbyd, oni bai ei fod yn cael ei ildio neu ei ddiddymu.
- 4.5 Wedi hynny, bydd unrhyw hysbysiad eithrio newydd yn cael ei gyflwyno i gyd-fynd â'r drwydded cerbyd hurio preifat

#### **5. Amodau Eithrio (yn ogystal â'r amodau a nodir yn Llyfr Glas y Cyngor)**

- 5.1 Wrth weithredu o dan yr hysbysiad eithrio, bydd rhaid i'r cerbyd arddangos y plât tu mewn i ffenestr flaen y cerbyd trwy gydol yr amser y bydd yr eithriad mewn grym.
- 5.2 Bydd yr Hysbysiad Eithrio a roddwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu yn cael ei gario yn y cerbyd bob amser a bydd yn cael ei ddangos ar gais i swyddog awdurdodedig o'r Cyngor (neu unrhyw swyddog awdurdodedig o'r Cyngor o fewn ardal y gweithrediad) neu swyddog heddlu.
- 5.3 Heblaw am y plât tu mewn (ffenestr flaen), ni fydd deiliad y drwydded yn arddangos unrhyw hysbyseb, arwyddion, logos neu hysbysebion ar gyfer y cwmni neu statws y cerbyd fel cerbyd hurio preifat y tu mewn, ar, neu oddi ar y cerbyd.
- 5.4 Bydd plât trwydded y cerbyd hurio preifat yn cael ei osod mewn safle gweladwy o fewn cist y cerbyd ac ni fydd yn cael ei arddangos yn allanol tra bod yr hysbysiad eithriad mewn grym. Yn ôl cais dangosir plât y drwydded i swyddog awdurdodedig o'r Cyngor (neu unrhyw swyddog awdurdodedig o'r Cyngor o fewn ardal y gweithrediad) neu swyddog heddlu.
- 5.5 Yn ystod cyfnod yr eithriad, ni fydd y gyrrwr yn gwisgo bathodyn gyrrwr hurio preifat (neu fathodyn gyrrwr ar y cyd os yn berthnasol), ond bydd wrth law ganddynt i swyddog awdurdodedig o'r Cyngor (neu unrhyw swyddog awdurdodedig y Cyngor o fewn ardal y gweithrediad) neu Swyddog Heddlu, i'w archwilio ar gais.
- 5.6 Drwy gydol cyfnod yr eithriad, bydd y gyrrwr wedi gwisgo'n briodol naill ai mewn siwt fusnes neu wisg chauffeur.
- 5.7 Ni fydd mesurydd tacsî'n cael ei osod yn y cerbyd.
- 5.8 Daw effaith yr eithriad i ben pan fydd y cerbyd yn cael ei werthu neu ei drosglwyddo i barti arall. Rhaid i'r unigolyn sydd wedi cael yr eithriad roi gwybod i'r Cyngor am werthu/trosglwyddo perchenogaeth o fewn 7 diwrnod, a rhaid gwneud hynny'n ysgrifenedig. Rhaid i'r hysbysiad eithrio gael ei ddychwelyd i'r Cyngor ynghyd â phlât adnabod y cerbyd hurio

preifat oni bai ei fod yn cael ei werthu i weithredwr hurio preifat trwyddedig arall gan y Cyngor; os felly dim ond yr hysbysiad eithriad y dylid ei dychwelyd.

## **6. Apeliadau**

- 6.1 Os na fydd ymgeisydd yn fodlon â phenderfyniad Swyddog, gall yr ymgeisydd wneud cais ysgrifenedig i'r Pwyllgor Trwyddedu adolygu'r penderfyniad.
- 6.2 Os bydd y Pwyllgor Trwyddedu yn credu nad oes angen busnes gweithredol gwirioneddol yn bodoli ar gyfer eithrio plât, bydd deiliad y drwydded yn cael gwybod bod y cais wedi'r wrthod.
- 6.3 Does dim hawl apelio statudol yn erbyn penderfyniad y Cyngor i arfer ei bwerau a chaniatáu eithriad.